# Data Arolwg Manwerthu

Cyngor Sir Penfro

Arolwg Mai ac Awst 2021

# Tudalen Gynnwys


1. **Cyflwyniad a Chrynodeb** 3
2. **Data ar Ganol Trefi** 9
3. **Mapiau** 17


Cynhaliwyd yr arolwg manwerthu canol tref ar gyfer Hwlffordd a Phenfro ym mis Mai 2021 ac ar gyfer Abergwaun, Aberdaugleddau, Arberth a Doc Penfro ym mis Awst 2021, yn dilyn cyfyngiadau symud y pandemig COVID-19.

# Cyflwyniad a Chrynodeb

Mae’r ddogfen hon yn cynnwys data a mapiau arolwg o Arolwg Canol Trefi Sir Benfro a gynhaliwyd ym mis Mai a mis Awst 2021. Arolygwyd y canol trefi canlynol ym mis Mai 2021:

- Hwlffordd
- Penfro

Arolygwyd y trefi canlynol ym mis Awst 2021:

- Abergwaun
- Aberdaugleddau
- Arberth
- Doc Penfro

Sylwch mai Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) a gynhaliodd yr arolwg o ganol trefi yn nhiriogaeth ei awdurdod cynllunio. Ychwanegwyd y rhain at yr adroddiad hwn, gan eu hamlygu mewn llwyd. Gwnaed arolwg APCAP ym mis Gorffennaf 2021.

Canolbwyntiodd yr arolwg ar yr eiddo o fewn terfynau dynodedig canol trefi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Benfro. Caiff y terfynau hyn eu dangos yn y mapiau yn Adran 3 o’r adroddiad hwn.

Mae’r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, ac mae’r ymgynghoriad adnau ffurfiol wedi’i gwblhau. Fodd bynnag, o ganlyniad i’r pandemig COVID-19, mae adolygiad o dystiolaeth wedi'i gynnal ac mae angen ailasesu nifer o safleoedd dyranedig yn CDLl Adnau 2 yn sgil cyhoeddi canllawiau gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar lefelau ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol. Ni fydd yr awdurdod mewn sefyllfa i wybod pa safleoedd y gellir eu cadw yn y cynllun hyd nes y daw rhagor o wybodaeth i law a bod gwaith ymchwil ychwanegol yn cael ei gynnal. Bydd oedi i amserlen CDLl 2 a bydd cytundeb cyflawni diwygiedig yn cael ei baratoi a fydd yn cynnwys dychwelyd i gam y cynllun adnau. Bydd ail gynllun adnau yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn y dyfodol, ond mae'r amseru yn ansicr ac yn ddibynnol ar ryddhau gwybodaeth a chanlyniadau ymchwil. Cynigiwyd newidiadau i bolisi manwerthu, terfynau manwerthu a dynodiadau fel rhan o’r ymgynghoriad ar y cynllun adnau a bydd unrhyw ddiwygiadau arfaethedig pellach yn destun ymgynghoriad fel rhan o ail gynllun adnau CDLl 2.

## Effaith Covid-19

Cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd fod COVID-19 yn bandemig byd-eang ar 11 Mawrth 2020. Ers y dyddiad hwn, bu nifer o gyfnodau lle bu angen i bob un ym maes manwerthu, gwasanaethau a lletygarwch nad ydynt yn hanfodol gau, fel yr amlinellir yn y tabl isod. Yn ystod y cyfnod o 17 mis rhwng mis Mawrth 2020 a mis Awst 2021, roedd siopau nad oeddent yn hanfodol ar gau

am gyfanswm o 31 wythnos a lletygarwch dan do ar gau am 42 wythnos. Cynhaliwyd yr arolwg manwerthu blynyddol ym mis Mai 2021 yn Hwlffordd a Phenfro ac ym mis Awst 2021 ar gyfer gweddill y canol trefi, pan godwyd y cyfyngiadau ar agor safleoedd. Fodd bynnag, mae rhai safleoedd wedi'u cofnodi fel gwag yn ystod yr arolwg gan y gallai fod rhai safleoedd wedi aros ar gau am gyfnod hwy. Daeth Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws y llywodraeth, y cyfeirir ato fel y cynllun ffyrlo, i ben ar 30 Medi 2021

## Digwyddiad allweddol

### 11th Mawrth 2020

Sefydliad Iechyd y Byd yn cyhoeddi COVID-19 yn bandemig byd-eang

### 20th Mawrth 2020

Lletygarwch, gan gynnwys caffis, tafarndai, bariau a bwytai, clybiau nos, theatrau, sinemâu, campfeydd a chanolfannau hamdden, yn cau.  Ysgolion yn cau.

### 23rd Mawrth 2020

Y Prif Weinidog yn gwneud y cyhoeddiad “arhoswch gartref”. Holl siopau nad ydynt yn hanfodol yn cau.

### 22nd Mehefin 2020

Siopau nad ydynt yn hanfodol yn cael ailagor

### 11th Gorffennaf 2020

Llety hunanddarpar yn cael ailagor

### 13th Gorffennaf 2020

Torwyr gwallt, lletygarwch awyr agored, gan gynnwys bariau, bwytai, sinemâu ac atyniadau i ymwelwyr yn yr awyr agored, yn cael ailagor.  Mannau addoli yn cael ailagor

### 25th Gorffennaf 2020

Safleoedd gwersylla a gwestai yn cael ailagor

### 27th Gorffennaf 2020

Salonau harddwch, sinemâu ac amgueddfeydd yn cael ailagor

### 3rd Awst 2020

Tafarndai a bwytai yn cael ailagor y tu fewn

### 24th Medi 2020

Lletygarwch, gan gynnwys bariau, bwytai a chasinos, yn cau am 10pm

### 23rd Hydref 2020 – 9th Tachwedd 2020

Cymru yn cael cyfnod atal byr o 17 diwrnod.  Bariau, bwytai a siopau nad ydynt yn hanfodol yn cau

### 4th Rhagfyr 2020

Tafarndai a bwytai yn cau erbyn 6pm a heb werthu alcohol.
Adloniant dan do yn cau

### 19th Rhagfyr 2020

Holl siopau nad ydynt yn hanfodol yn cau

### 15th Mawrth 2021

Torwyr gwallt a barbwyr yn cael ailagor

### 12th Ebrill 2021

Holl siopau a gwasanaethau cyswllt agos sy'n weddill yn cael ailagor

### 26th Ebrill 2021

Lletygarwch awyr agored, gan gynnwys caffis a bwytai, yn cael ailagor

### 17th Mai 2021

Lletygarwch dan do yn cael ailagor

## Casglwyd y wybodaeth

Casglwyd y wybodaeth ganlynol ar gyfer pob eiddo masnachol:

- A oedd y llawr isaf yn cael ei ddefnyddio neu'n wag
- Dosbarth defnydd y llawr isaf gan ddefnyddio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel y diwygiwyd).

Mae dadansoddiad pen desg o fapiau wedi rhoi arwynebedd llawr crynswth ar gyfer holl unedau manwerthu.

Ar gyfer eiddo gwag, gwnaed chwiliadau dilynol o ffeiliau cynllunio hanesyddol a defnyddiwyd arolygon blaenorol i benderfynu'r dosbarth defnydd hysbys diwethaf, lle bo hynny'n bosibl.

Mae'r tablau yn yr adran ddadansoddi'n cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

### Defnyddiau Dosbarth A:

Sawl eiddo a nodwyd fel A1, A2 neu A3 yn y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd. Defnyddiau A1 yw siopau o bob math, gan gynnwys archfarchnadoedd a warysau manwerthu. Mae defnyddiau A1 hefyd yn cynnwys trinwyr gwallt a bariau brechdanau (heblaw'r rhai'n gwerthu bwyd poeth) a rhai ystafelloedd arddangos.

Defnyddiau A2 yw'r rhai'n cynnig gwasanaethau ariannol a phroffesiynol i'r cyhoedd sy'n ymweld, gan gynnwys banciau, cymdeithasau adeiladu, gwerthwyr tai a swyddfeydd betio.

Defnyddiau A3 yw mannau gwerthu bwyd a diod, gan gynnwys tai bwyta, bariau, tafarnau a phrydau parod.[1]

### Math o eiddo Dosbarth A:

Mae dadgyfuno'r unedau hynny yn nosbarthiadau defnydd A1, A2 ac A3 yn helpu rhoi darlun mwy eglur o'r math o wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan yr uned honno. Yn gyffredinol, mae unedau A1 o natur gymharu neu gyfleuster; fodd bynnag, mae rhai defnyddiau A1 yn cynnig gwasanaethau (fel triniwr gwallt neu swyddfa bost). Yn gyffredinol, mae dosbarthiadau defnydd A2 ac A3 o natur gwasanaeth. Rhannwyd y mathau o uned fel a ganlyn:

- Uned gymharu: Yr unedau hynny sy'n gwerthu cynhyrchion o natur barhaol i'r cyhoedd. Cynhyrchion yw'r rhain fel dillad, electroneg, cerddoriaeth neu lyfrau.

- Uned gyfleuster: Yr unedau hynny sy'n gwerthu cynhyrchion o natur amharhaol i'r cyhoedd. Cynhyrchion yw'r rhain fel bwyd neu bethau ymolchi.

- Uned wasanaeth: Yr unedau hynny sy'n cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd. Gwasanaethau yw'r rhain fel trinwyr gwallt, siopau betio neu werthwyr tai.

## Crynodeb o ddata'r arolwg

- Mae canran yr unedau Dosbarth A gwag wedi cynyddu ers mis Mawrth 2020 ledled canol trefi Abergwaun, Hwlffordd, Aberdaugleddau a Phenfro o 3% i 7%. Nid oedd y gyfradd unedau gwag o 24% ar gyfer Doc Penfro wedi newid. Cofnodwyd y cynnydd mwyaf mewn unedau gwag yng nghanol tref Aberdaugleddau, sydd â'r gyfradd unedau gwag fwyaf yn Sir Benfro o 29%. Fodd bynnag, gellir egluro hyn yn rhannol drwy dwf Marina Aberdaugleddau, sydd wedi perfformio orau ymysg y

[1] Sylwch fod y dosbarth defnydd A3 wedi cael ei newid eto yn Lloegr; fodd bynnag, nid yw'r newid hwn yn berthnasol yng Nghymru.

canolfannau manwerthu, lle mae unedau gwag ar gyfer defnyddiau Dosbarth A wedi disgyn o 33% i 5%. Mae Arberth wedi perfformio'n dda hefyd gyda'r gyfradd unedau gwag yn disgyn o 11% i 9%.

- Mae'r cyfraddau unedau gwag yn aros yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru[2] yn Abergwaun, Hwlffordd, Aberdaugleddau a Doc Penfro. Mae'r gyfradd unedau gwag yng nghanol tref Penfro yn unol â'r cyfartaledd yng Nghymru ar gyfer Chwarter 2.2021. Mae Arberth a Marina Aberdaugleddau yn sylweddol is na'r gyfradd unedau gwag gyfartalog yng Nghymru. Mae Arberth a Marina Aberdaugleddau yn atynnu twristiaid ac, yn ystod y pandemig COVID-19, cynyddodd nifer y twristiaid yn Sir Benfro yn ystod misoedd yr haf, yn rhannol o ganlyniad i'r cyfyngiadau ar deithio rhyngwladol.

- Yng nghanol tref Abergwaun, cynyddodd cyfradd unedau gwag safleoedd Dosbarth A o 19% i 22%. Collodd canol y dref siop ddillad gadwyn genedlaethol, Peacocks, a chaeodd nifer fach o siopau annibynnol a thorrwr gwallt. Gwnaeth yr arolwg manwerthu gofnodi agor nifer fach o unedau annibynnol yng nghanol tref Abergwaun.

- Roedd cynnydd o saith uned yn unedau gwag Dosbarth A yng nghanol tref Hwlffordd, sef 25% o unedau gwag, yn 2021. Hwlffordd sydd â'r nifer cyffredinol mwyaf o unedau gwag ym mhob dosbarth defnydd, gyda chyfanswm o 64 uned wag o fewn canol y dref. Mae ystod o fathau o siopau wedi cau yng nghanol tref Hwlffordd, yn rhannol oherwydd dirywiad parhaus y stryd fawr gyda chau siopau cenedlaethol fel Edinburgh Woollen Mill a Carphone Warehouse. Ystyrir bod y pandemig COVID-19 wedi cyfrannu at gau rhai gwasanaethau cyswllt agos megis parlyrau harddu a stiwdios tatŵ; fodd bynnag, mae cynnydd cyffredinol wedi bod yn nifer yr unedau yn y sector hwn. Mae nifer fach o siopau annibynnol wedi ail-leoli o fewn ganol y dref i feddiannu lleoliadau mwy canolog.

- Cafodd canol tref Aberdaugleddau gynnydd o chwe safle gwag Dosbarth A dros y flwyddyn ddiwethaf, gan arwain at gyfradd unedau gwag o 29%. Canol tref Aberdaugleddau sydd â'r gyfradd uchaf o unedau gwag mewn canol trefi yn Sir Benfro ac mae'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae trosiant wedi bod yng nghau ac agor unedau yn y sector gwasanaethau cyswllt agos, yn benodol mewn parlyrau gwallt/harddwch a thatŵ a chaffis, y gellir ei briodoli'n rhannol o bosib i'r pandemig COVID-19.

- Cafodd Marina Aberdaugleddau gynnydd mawr mewn defnydd o unedau gwag, gyda nifer yr unedau gwag Dosbarth A yn gostwng o wyth i un, gyda'r gyfradd unedau gwag yn 5%. Mae'r defnydd o unedau gwag wedi bod ar gyfer defnyddiau bwyd a diod, gyda chynnydd o bump i ddeg defnydd A3 yn ardal y marina. Gallai'r twf hwn fod yn rhannol o ganlyniad

---

[2] Cafwyd cyfradd unedau gwag gyfartalog ar gyfer canol trefi yng Nghymru o 19.5% yn Chwarter 2 2021 (Consortiwm Manwerthu Cymru).

i'r cyfyngiadau gofod a osodwyd gan reoliadau COVID-19 a phoblogrwydd yr ardal gyda phobl leol a thwristiaid. Disgwylir i westy newydd agor yn 2022, a allai fod wedi cyfrannu at ddefnydd o'r unedau yn yr ardal hon.

- Mae Arberth yn parhau i fod yn ganol tref llewyrchus, ac mae'r gyfradd unedau gwag Dosbarth A wedi gostwng o wyth uned i saith uned, gan arwain at ganran cyfradd unedau gwag o 9%. Mae gan ganol tref Arberth nifer fawr o siopau annibynnol ac mae'n boblogaidd â phreswylwyr lleol a thwristiaid.

- Mae canol tref Penfro wedi gweld cynnydd mewn unedau gwag o 15% i 19% gyda chyfanswm o 21 o unedau Dosbarth A yn wag. Mae nifer o fusnesau wedi cau a nifer o fusnesau newydd wedi agor, yn enwedig yn y sector gwasanaethau.

- Nid yw'r gyfradd unedau gwag o 24% wedi newid yn Noc Penfro, er y newid mewn nifer o safleoedd.

- Gostyngodd arwynebedd llawr mewn defnydd yr unedau cymharu yn yr holl ganolfannau manwerthu, ac eithrio Arberth. Ni chafwyd llawer o effaith ar lefel yr unedau cyfleuster ym mhob canolfan fanwerthu. Gostyngodd lefel yr unedau gwasanaeth ym mhob canolfan ac eithrio Arberth a Marina Aberdaugleddau. Fel mewn arolygon blaenorol, mae gan lawer o ganol trefi Sir Benfro gyfran uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o unedau seiliedig ar wasanaeth. Mewn rhai achosion, mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd twristiaeth i ganolfan ac mae'n dangos mwy o gaffis a bwytai. Mewn achosion eraill, mae'n dangos canol tref mewn trafferth gydag ychydig o siopau nwyddau cymharol.

- Darparodd Astudiaeth Manwerthu Rhanbarth De-orllewin Cymru (2017) ddadansoddiad o gryfderau a gwendidau cymharol canol trefi Sir Benfro, ar sail arolwg manwerthu 2016, ymweliadau ymgynghorwyr â chanol y trefi, ac arolwg aelwydydd dros y ffôn. Mae'r arolwg yn awgrymu bod y dadansoddiad hwn o gryfderau a gwendidau cymharol canol trefi Sir Benfro yn dal i fod yn berthnasol.

- Mae dylanwadau ychwanegol ar feddiannaeth unedau yng nghanol trefi, ac eithrio COVID-19, yn cynnwys effaith Brexit, y gostyngiad ym mhresenoldeb banciau a chymdeithasau adeiladu ar y stryd fawr, a strategaeth genedlaethol rhai manwerthwyr mawr, gan gynnwys gostyngwyr a manwerthwyr ffasiwn. Mae dwy siop ddillad cadwyn genedlaethol wedi cau yn Hwlffordd ac Abergwaun, a dybir ei fod o ganlyniad i ddirywiad parhaus y stryd fawr a thwf siopa ar-lein.

- Mae polisi CDLl GN.12 'Datblygu Canol Trefi' yn mynnu bod datblygiadau arfaethedig yn peidio â chreu crynodiad o fwy na thraean o ddefnyddiau (manwerthu) nad ydynt yn A1 o fewn prif ffryntiad. Mae'r arolwg manwerthu yn dangos bod y canolfannau manwerthu canlynol â

llai na dau draean o ddefnyddiau A1 yn y prif ffryntiad: Abergwaun, Arberth a Phenfro. Pan gaiff defnyddiau A1 gwag hefyd eu tynnu, mae gan y canol trefi canlynol lai na dau draean o ddefnyddiau A1 wedi'u meddiannu yn y prif ffryntiad: Abergwaun, Hwlffordd, Arberth, Penfro a Doc Penfro.  Mae'n annisgwyl bod Arberth, sy'n ganol tref poblogaidd sy'n perfformio'n dda, â llai na dau draean o ddefnyddiau A1 yn y brif ardal fanwerthu. Mae hefyd yn ddiddorol bod gan ganol tref Aberdaugleddau gyfradd feddiannaeth uchel o 80% o ddefnyddiau A1 wedi'u meddiannu o fewn y brif ardal fanwerthu, ac eto canol tref Aberdaugleddau sydd â'r gyfradd unedau gwag gyffredinol fwyaf yn Sir Benfro.

- Mae gostyngiad parhaus wedi bod ym mhresenoldeb siopau betio ar y stryd fawr a gostyngiad bach yn nifer y siopau elusen. Mae trosiant eithaf mawr wedi bod ar gyfer unedau torwyr gwallt, barbwyr a salonau harddwch. Mae cyfyngiadau COVID-19 ar agor wedi cael effaith ar y sector hwn, ac mae'n sector sy'n meddiannu unedau llai mewn canol trefi. Gall y sector hwn ymgymryd â gwasanaethau symudol a bydd yn cael ei fonitro mewn arolygon yn y dyfodol.

- Mae nifer isel iawn o siopau dillad newydd wedi agor ar draws y canol trefi ac mae hyn yn parhau i fod yn faes siopa cymharu sy'n dirywio o fewn canol trefi. Mae'r potensial i unedau manwerthu sydd wedi'u lleoli'n briodol gael eu trosi i ddefnydd preswyl neu ddefnyddiau anfasnachol eraill wedi methu â gwrthsefyll lefelau gwacter.

# Data a Ganol Trefi 2021

## 2.1 Nifer a unedau Dosbarth A

**A1:**
Mae defnyddiau A1 hefyd yn cynnwys trinwyr gwallt a bariau brechdanau (heblaw'r rhai'n gwerthu bwyd poeth) a rhai ystafelloedd arddangos.

**A2:**
Mae defnyddiau A2 yw'r rhai'n cynnig gwasanaethau ariannol a phroffesiynol i'r cyhoedd sy'n ymweld, gan gynnwys banciau, cymdeithasau adeiladu, gwerthwyr tai a swyddfeydd betio..

**A3:**
Mae defnyddiau A3 yw mannau gwerthu bwyd a diod, gan gynnwys tai bwyta, bariau, tafarnau a phrydau parod

| Tref | A1 mewn defnydd | A2 mewn defnydd | A3 mewn defnydd | Dosbarth A cymysg mewn defnydd | Dosbarth A gwag | Cyfanswm Dosbarth A | % Unedau gwag dosbarth A | Cyfanswm a unedau gwag (pob defnydd heblaw preswyl |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abergwaun | 42 | 8 | 21 | 2 | 21 | 94 | 22% | 25 |
| Hwlffordd | 99 | 40 | 26 | 1 | 54 | 220 | 25% | 64 |
| Aberdaugleddau | 37 | 11 | 17 | 2 | 28 | 95 | 29% | 33 |
| Marina[3] Aberdaugleddau | 12 | 0 | 9 | 0 | 1 | 22 | 5% | 1 |
| Arberth | 49 | 8 | 19 | 2 | 8 | 86 | 9% | 9 |
| Penfro | 48 | 15 | 22 | 2 | 21 | 108 | 19% | 32 |
| Doc Penfro | 55 | 14 | 12 | 0 | 26 | 107 | 24% | 28 |
| Dinbych-y-Pysgod | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 15 | 184 | 8 | Dim dadansoddiad ar gael |
| Saundersfoot | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 3 | 66 | 5 | Dim dadansoddiad ar gael |
| Tyddewi | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 5 | 60 | 8 | Dim dadansoddiad ar gael |
| Solfach | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 1 | 14 | 7 | Dim dadansoddiad ar gael |
| Trefdraeth | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 0 | 29 | 0 | Dim dadansoddiad ar gael |

**Nodiadau:**

- Mae data ar unedau llawr isaf yn unig.
- Roedd cyfradd unedau gwag Cymru ar gyfer canol trefi yn 19.5% yn Chwarter 2 2021 (Consortiwm Manwerthu Cymru), a gynyddodd o 15.8% yn 2019.

## 2.2. Arwynebedd llawr isaf unedau Dosbarth A (crynswth m2) 2021

Mae dadansoddiad pen desg o fapiau wedi rhoi arwynebedd llawr crynswth ar gyfer holl unedau manwerthu.

| Tref | A1 Arwynebedd llawr mewn defnydd | A2 Arwynebedd llawr mewn defnydd | A3 Arwynebedd llawr mewn defnydd | Dosbarth A cymysg mewn defnydd | Dosbarth A gwag | Prif gyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Abergwaun | 6792 | 874 | 3080 | 404 | 3062 | 14212 |
| Hwlfforddd | 17943 | 5840 | 3985 | 141 | 8182 | 36,091 |
| Aberdaugleddau | 5039 | 1497 | 2676 | 602 | 3609 | 13423 |
| Marina Aberdaugleddau | 898 | 0 | 843 | 0 | 59 | 1800 |
| Arberth | 4563 | 392 | 2407 | 1035 | 877 | 9275 |
| Penfro | 6773 | 2008 | 3576 | 359 | 4623 | 17339 |
| Doc Penfro | 10569 | 2081 | 1326 | 0 | 3257 | 17233 |
| Dinbych-y-Pysgod | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 2330 | Dim dadansoddiad ar gael |
| Saundersfoot | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 278 | Dim dadansoddiad ar gael |
| Tyddewi | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 328 | Dim dadansoddiad ar gael |
| Solfach | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 155 | Dim dadansoddiad ar gael |
| Trefdraeth | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 0 | Dim dadansoddiad ar gael |

**Note:**

Dim dadansoddiad ar gael: Arolwg Parc Cenedlaethol dyddiedig Gorffennaf 2021

## 2.3 Math o unedau Dosbarth A 2014-2021     A. Niferoedd unedau

### Cymharu (mewn defnydd)

**Uned gymharu:** Yr unedau hynny sy'n gwerthu cynhyrchion o natur barhaol i'r cyhoedd. Cynhyrchion yw'r rhain fel dillad, electroneg, cerddoriaeth neu lyfrau.

| Cymharu | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaugleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2014 Cymharu (mewn defnydd)** | 39 | 94 | 30 | 8 | 42 | 34 | 48 |
| **2016 Cymharu (mewn defnydd)** | 35 | 103 | 30 | 9 | 40 | 35 | 45 |
| **2018 Cymharu (mewn defnydd)** | 32 | 90 | 34 | 9 | 40 | 33 | 38 |
| **2019 Cymharu (mewn defnydd)** | 32 | 91 | 31 | 9 | 39 | 33 | 37 |
| **2020 Cymharu (mewn defnydd)** | 29 | 80 | 29 | 8 | 35 | 33 | 36 |
| **2021 Cymharu (mewn defnydd)** | 30 | 74 | 26 | 7 | 36 | 30 | 36 |

### Cyfleuster (mewn defnydd)

**Uned gyfleuster:** Yr unedau hynny sy'n gwerthu cynhyrchion o natur amharhaol i'r cyhoedd. Cynhyrchion yw'r rhain fel bwyd neu bethau ymolchi.

| Cyfleuster | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaugleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2014 Cyfleuster (mewn defnydd)** | 4 | 2 | 3 | 0 | 4 | 4 | 1 |
| **2016 Cyfleuster (mewn defnydd)** | 4 | 2 | 3 | 0 | 4 | 3 | 1 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2018 Cyfleuster (mewn defnydd)** | 4 | 3 | 3 | 0 | 4 | 6 | 5 |
| **2019 Cyfleuster (mewn defnydd)** | 4 | 3 | 2 | 0 | 4 | 6 | 5 |
| **2020 Cyfleuster (mewn defnydd)** | 4 | 3 | 2 | 0 | 4 | 6 | 5 |
| **2021 Cyfleuster (mewn defnydd)** | 4 | 3 | 2 | 0 | 4 | 6 | 5 |

## Wasanaeth (mewn defnydd)

**Uned wasanaeth:** Yr unedau hynny sy'n cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd. Gwasanaethau yw'r rhain fel trinwyr gwallt, siopau betio neu werthwyr tai.

| Wasanaeth | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaulgleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2014 Wasanaeth (mewn defnydd)** | 43 | 106 | 47 | 11 | 42 | 63 | 45 |
| **2016 Wasnaeth (mewn defnydd)** | 45 | 100 | 49 | 9 | 43 | 65 | 44 |
| **2018 Wasnaeth (mewn defnydd)** | 43 | 94 | 45 | 11 | 41 | 60 | 40 |
| **2019 Wasanaeth (mewn defnydd)** | 43 | 91 | 46 | 11 | 40 | 59 | 41 |
| **2020 Wasnaeth (mewn defnydd)** | 42 | 95 | 42 | 8 | 37 | 54 | 39 |
| **2021 Wasnaeth (mewn defnydd)** | 37 | 88 | 38 | 14 | 36 | 51 | 40 |

## Gwag

Ar gyfer eiddo gwag, gwnaed chwiliadau dilynol o ffeiliau cynllunio hanesyddol a defnyddiwyd arolygon blaenorol i benderfynu'r dosbarth defnydd hysbys diwethaf, lle bo hynny'n bosibl.

| Gwag | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaugleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2014 Gwag** | 9 | 42 | 21 | 0 | 2 | 7 | 17 |
| **2016 Gwag** | 16 | 45 | 18 | 1 | 2 | 8 | 21 |
| **2018 Gwag** | 19 | 38 | 23 | 2 | 5 | 9 | 28 |
| **2019 Gwag** | 16 | 38 | 18 | 3 | 8 | 9 | 28 |
| **2020 Gwag** | 17 | 44 | 17 | 8 | 10 | 15 | 26 |
| **2021 Gwag** | 21 | 54 | 28 | 1 | 8 | 21 | 26 |

## Cyfanswm Dosbarth A

Sawl eiddo a nodwyd fel A1, A2 neu A3 yn y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd.

| Total A Class | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaugleddau | Marina Milford | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2014 Cyfanswm Dosbarth A** | 95 | 244 | 101 | 19 | 91 | 109 | 111 |
| **2016 Cyfanswm Dosbarth A** | 100 | 250 | 101 | 19 | 90 | 113 | 111 |
| **2018 Cyfanswm Dosbarth A** | 98 | 225 | 106 | 22 | 90 | 108 | 111 |
| **2019 Cyfanswm Dosbarth A** | 93 | 223 | 98 | 23 | 90 | 107 | 112 |
| **2020 Cyfanswm Dosbarth A *** | 92 | 222 | 90 | 24 | 86 | 108 | 106 |
| **2021 Cyfanswm Dosbarth A** | 94 | 220 | 95 | 22 | 86 | 108 | 107 |

* Mae'n bosibl na fydd yn talgrynnu gan fod y ffigur cyfan yn cynnwys defnydd cymysg gydag elfen o ddefnyddiau Dosbarth A.

## Arwynebedd llawr (crynswth m2) Dosbarth A 2021

Mae dadansoddiad pen desg o fapiau wedi rhoi arwynebedd llawr crynswth ar gyfer holl unedau manwerthu.

| Tref | Arwynebedd llawr cymharu (mewn defnydd) | Arwynebedd cyfleuster (mewn defnydd) | Arwynebedd wasnaeth (mewn defnydd) | Cymysg Dosbarth A (mewn defnydd) | Gwag | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Abergwaun | 4682 | 1510 | 4553 | 404 | 3062 | 14211 |
| Hwlffordd | 14968 | 947 | 11853 | 141 | 8182 | 36091 |
| Aberdaugleddau | 3418 | 697 | 5098 | 602 | 3609 | 13424 |
| Marina Aberdaugleddau | 591 | 0 | 1151 | 0 | 59 | 1801 |
| Arberth | 3268 | 627 | 3467 | 1035 | 877 | 9274 |
| Penfro | 4608 | 1001 | 6747 | 359 | 4623 | 17338 |
| Doc Penfro | 5297 | 3860 | 4818 | 0 | 3190 | 17166 |

## 2.4 Graff yn dangos cyfraddau gwacter Dosbarth A ar gyfer 2019,2020 a 2021



## 2.5 Tabl yn dangos canran y defnyddiau A1 wedi'u meddiannu yn y prif ffryntiad

| Canol tref | Cyfanswm prif ffryntiad manwerthu mewn metrau | Cyfanwm prif ffryntiad manwerthu mewn metrau gyda defnydd A1 (mewn defnydd a gwag) | Canran o defnydd A1 yn y prif ffryntiad manwerthu | Cyfanswm prif ffryntiad manwerthu mewn metrau gyda defnydd A1wedi'I feddiannu | Canran defynyddiau A1 wedi'I meddiannu yn y prif ffryntiad manwerthu |
|---|---|---|---|---|---|
| Abergwaun | 420 | 200 | 47% | 131 | 31% |
| Hwlffordd | 1127 | 787 | 70% | 576 | 51% |
| Aberdaugleddau | 200 | 179 | 90% | 159 | 80% |
| Marina Aberdaugleddau | 39 | 39 | 100% | 39 | 100% |
| Arberth | 363 | 173 | 48% | 165 | 45% |
| Penfro | 484 | 260 | 54% | 209 | 43% |
| Doc Penfro | 1032 | 764 | 74% | 651 | 63% |

## 2.6 Newidiadau mewn siopau betio rhwng 2009 a 2021 (unedau mewn defnydd yn unig)

### Cyfanswm siopau betio

| Tref | 2009 | 2012 | 2014 | 2016 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abergwaun | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Hwlffordd | 2 | 2 | 2 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 |
| Aberdaugleddau | 2 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 2 |
| Arberth | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 |
| Penfro | 1 | 1 | 2 | 2 | 1 | 2 | 1 | 1 |
| Doc Penfro | 0 | 1 | 2 | 3 | 2 | 2 | 2 | 1 |
| Cyfanswm | 6 | 9 | 11 | 13 | 11 | 11 | 9 | 6 |

### Cyfanswm siopau betio

Arolwg Parc Cenedlaethol dyddiedig Gorffennaf 2021

| Tref | 2009 | 2012 | 2014 | 2016 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tredraeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Amh | Amh | Amh |
| Saundersfoot | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Amh | Amh | Amh |
| Solfach | 0 | - | 0 | 0 | 0 | Amh | Amh | Amh |
| Tyddewi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Amh | Amh | Amh |
| Dinbych-y-pysgod | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | Amh | Amh | Amh |

| Tref | 2009 | 2012 | 2014 | 2016 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | Amh | Amh | Amh |

### Prif cyfanswm siopau betio

| Blwyddyn | 2009 | 2012 | 2014 | 2016 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 8 | 11 | 14 | 15 | 13 | N/A | N/A | N/A |

## 2.7 Newidiadau mewn siopau elusen rhwng 2009 a 2021 (unedau mewn defnydd yn unig)

### Cyfanswm siopau elusen

| Tref | 2009 | 2012 | 2014 | 2016 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abergwaun | 1 | 3 | 3 | 2 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Hwlffordd | 8 | 9 | 12 | 11 | 11 | 11 | 9 | 9 |
| Aberdaugleddau | 3 | 3 | 4 | 3 | 4 | 7 | 4 | 3 |
| Arberth | 0 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Penfro | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 3 | 3 |
| Doc Penfro | 1 | 1 | 7 | 5 | 4 | 6 | 5 | 4 |
| Cyfanswm | 17 | 23 | 33 | 28 | 30 | 35 | 28 | 26 |

### Cyfanswm siopau elusen

Arolwg Parc Cenedlaethol dyddiedig Gorffennaf 2021

| Tref | 2009 | 2012 | 2014 | 2016 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefdaeth | - | 0 | 0 | 0 | 0 | N/A | N/A | N/A |
| Saundersfoot | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | N/A | N/A | N/A |
| Solfach | - | - | 0 | 0 | 0 | N/A | N/A | N/A |
| Tyddewi | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | N/A | N/A | N/A |
| Dinbych-y-pysgod | 5 | 6 | 4 | 4 | 4 | N/A | N/A | N/A |
| Cyfanswm | 6 | 7 | 5 | 5 | 5 | N/A | N/A | N/A |

### Prif Cyfanswm siopau elusen

| Blwyddyn | 2009 | 2012 | 2014 | 2016 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 23 | 30 | 38 | 33 | 35 | N/A | N/A | N/A |

## 2.8 Newidiadau mewn safleoedd wedi’u meddiannu fel barbwyr/trinwyr gwallt a salonau harddwch rhwng 2020 a 2021 (unedau mewn defnydd yn unig)

### Barbwyr/Trinwyr gwallt/Harddwch

| Tref | 2020 | 2021 |
|---|---|---|
| Abergwaun | 7 | 6 |
| Hwlffordd | 10 | 14 |

| Tref | 2020 | 2021 |
|---|---|---|
| Aberdaugleddau | 7 | 8 |
| Marina Aberdaugleddau | 2 | 1 |
| Arberth | 4 | 5 |
| Penfro | 8 | 10 |
| Doc Penfro | 9 | 11 |
| Cyfanswm | 47 | 55 |

## Mapiau Canol Trefi (gwelwch yr atodiadau)

Mae'r mapiau'n dangos dosbarth defnydd yr eiddoo fewn canol y dref ar adeg yr arolwg manwerthu. Mae'r rhestr a ganlyn yn dangos gwahanol fathau o ddefnydd a all berthyn i bob dosbarth defnydd.

### A1 Siopau

Siopau, warysau manwerthu, siopau trin gwallt, trefnwyr angladdau, swyddfeydd teithio a thocynnau, swyddfeydd post (ond nid swyddfeydd didoli), siopau anifeiliaid anwes, siopau brechdanau, ystafelloedd arddangos, siopau hurio domestig, siopau glanhau dillad a chyfarwyddwyr angladdau.

### A2 Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol

Gwasanaethau ariannol megis banciau a chymdeithasau adeiladu, gwasanaethau proffesiynol (heblaw gwasanaethau iechyd a meddygol), gan gynnwys swyddfeydd gwerthu tai, asiantaethau cyflogaeth a swyddfeydd betio.

### A3 Bwyd a diod

Lleoedd gwerthu bwyd a diod sydd i'w bwyta/yfed ar y safle – tai bwyta, siopau byrbrydau a chaffis, lleoedd yfed a lleoedd gwerthu cludfwyd.

### B1 Busnes

Swyddfeydd (heblaw'r rheini sy'n perthyn i ddosbarth A2), gwaith ymchwil a datblygu'n ymwneud â nwyddau a phrosesau, diwydiant ysgafn sy'n briodol mewn ardal breswyl.

### B2 Diwydiannol cyffredinol

Defnyddir ar gyfer proses ddiwydiannol heblaw un sy'n perthyn i ddosbarth B1 (ac eithrio gwaith llosgi, gwaith trin â chemegion, gwaith tirlenwi neu wastraff peryglus).

### B8 Gwasanaethau storio neu ddosbarthu

Defnyddir at ddibenion storio neu fel canolfan ddosbarthu. Mae'r dosbarth hwn yn cynnwys gwasanaethau storio yn yr awyr agored.

### C1 Gwestai

Gwestai a thai llety lle nad oes unrhyw ofal sylweddol yn cael ei ddarparu (nid yw'n cynnwys hosteli).

## C3 Tai annedd

## D1 Sefydliadau nad ydynt yn rhai preswyl

Clinigau, canolfannau iechyd, crèches, meithrinfeydd dydd, canolfannau dydd, ysgolion, orielau celfyddyd (heblaw'r rheini sy'n gwerthu neu'n hurio), amgueddfeydd, llyfrgelloedd, neuaddau, addoldai, neuaddau eglwysi, llysoedd barn, canolfannau addysg a hyfforddiant nad ydynt yn rhai preswyl.

## D2 Mannau ymgynnull a hamdden

Sinemâu, neuaddau cyngerdd a cherddoriaeth, casinos, neuaddau bingo a dawnsio, pyllau nofio, canolfannau sglefrio, campfeydd neu ardaloedd ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden dan do ac yn yr awyr agored (heblaw chwaraeon moduron neu weithgareddau lle caiff gynnau eu defnyddio).

## Defnydd unigryw

Nid yw rhai mathau o ddefnydd yn perthyn i'r un dosbarth defnydd, ac fe'u hystyrir yn 'ddefnydd unigryw'. Mae'r mathau hynny o ddefnydd yn cynnwys: theatrau, hosteli, iardiau sborion, gorsafoedd petrol a siopau sy'n gwerthu a/neu'n arddangos cerbydau modur, lleoedd golchi dillad, busnesau tacsis a chanolfannau peiriannau chwarae.

Fishguard / Abergwaun 2020

Town Centre Survey / Arolwg Canol Tref




© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partion mewn unrhyw ffurf.




© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partion mewn unrhyw ffurf.




© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partion mewn unrhyw ffurf.




© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.

Milford Haven / Aberdaugleddau 2020

Town Centre Survey / Arolwg Canol Tref




© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partion mewn unrhyw ffurf.




© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.

Narberth / Arberth 2020

Town Centre Survey / Arolwg Canol Tref




© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.

## Town Centre Survey 2021/ Arolwg Canol Dref 2021
## Narberth/ Arberth

Scale (A4 Print) / Graddfa (Argraffiad A4) 1:2,098.527882




© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.

Pembroke / Penfro 2020

Town Centre Survey / Arolwg Canol Tref




© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.


Town Centre Survey 2021/ Arolwg Canol Dref 2021
Pembroke/ Penfro
Scale (A4 Print) / Graddfa (Argraffiad A4) 1:3,879.627059
Use Class
A1
A1/A3
A2
A3
A3/C1
B1
B1/A2
B2
B8
C1
C3
D1
D1/A3
D2
Sui Gen
unknown
VACANT
PEMBROKE
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.

Pembroke Dock / Doc Penfro 2020

Town Centre Survey / Arolwg Canol Tref




© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.




© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.